Papur Bro Abertawe

# WILIA

RHIFYN 485 GORFFENNAF 2026 | AM DDIM

## CÔR TŶ TAWE YN LLANDEILO FERWALLT - ROB EVANS



Ar y 15fed o Fehefin roedd Cyfarfod olaf Cymdeithas Gymraeg Llandeilo Ferwallt, ond doedden ni ddim yn poeni achos bydden ni'n ail-ddechrau ym mis Hydref. Yn y cyfarfod cyntaf yna byddai pawb yn edrych ymlaen at gael eu swyno gan y gantores Delyth Jenkins a'i thelyn, felly, os dach chi'n byw yn lleol, dewch i fwynhau!

Mae'n draddodiad i gael Côr Tŷ Tawe i ganu i ni ar y noson olaf, ac mae pob un perfformiad yn wahanol, ond dan arweinyddiaeth Edward-Rhys Harry roedd noson arbennig o'n blaenau ni. Ac roedd popeth yn dechrau efo cân Huw Chiswell 'Y Cwm', y côr i gyd yn canu, am gân i ddechrau yn wir! Wedyn roedd Linda yn dod i'r blaen i ganu 'Tiwn Sol-ffa' cân yn galw am gof perffaith. Wel, roedd y cof yn berffaith, y gynulleidfa wedi mwynhau yn arw a Linda yn haeddu'r holl gymeradwyaeth.

Wedyn wnaeth rhai o'r parti ddod i'r blaen i ganu Ffalabalam - llawer o hwyl ac yn mynd â ni at y côr cyfan yn canu Salm 23 ac wedyn y gân emosiynol 'Anfonaf Angel' cydweithrediad rhwng Hywel Gwynfryn a Robat Arwyn. Yn dilyn hyn wnaeth Catrin ganu 'Colli Iaith', cân arall sydd yn dod â lwmp i'ch gwddw ac yn codi'r cwestiwn - a ydyn ni wir yn gwneud digon i gadw ein hiaith yn fyw?

Dau emyn wedyn gan y côr 'Rwy'n dy weld yn sefyll', gwaith Ann Griffiths, Helen Evans yn canu'r unawd. 'O nefol addfwyn oen', gwaith William Williams Pantycelyn wedyn cyn i ni wrando ar Rex yn canu 'Bugeilio'r gwenith gwyn,' gwrando a gwir mwynhau hefyd.

Yn tynnu at y diwedd rŵan a chael un o oreuon Cwmni Theatr Maldwyn 'Eryr Pengwern. Dw i'n cofio mynd i'r theatr yng Nghaerfyrddin i fwynhau detholiad o'r rhestr hir o'r caneuon sydd wedi dod o'u sioeau nhw. Roedd llond llwyfan o gast a phopeth yn berffaith ond, yn braf iawn i'w ddweud, roedd Côr Tŷ Tawe yn berffaith hefyd!

Ac yng nghanol hyn cawson ni'r cyfle i glywed Llywelyn ar yr ewffoniwm, llanc ifanc talentog a bydden ni'n sicr o'i glywed o eto! Yr item olaf ar y rhaglen oedd gwaith Waldo Williams ac Eric Jones, sef 'Tangnefeddwyr' ac mae'r geiriau mor briodol yn y byd sydd ohoni. Ambell waith nes i gau fy llygaid ac ymlacio a gadael i'r gerddoriaeth lifo trwy fy mhen ac roedd hynny yn bleser pur. Ond roedd emosiwn yn yr holl eiriau hefyd - 'Y Cwm', 'Anfonaf Angel' 'Colli Iaith', Thangnefeddwyr' ac 'Eryr Pengwern' 'Ein gwlad, ein hanes a'n hiaith.

A ydym yn gwneud digon er mwyn cadw'r rhain i fynd? Ydan ni wir? Roedd y noson yn dangos fod y côr wedi dringo i lefel uchel iawn diolch i waith Edward Rhys Harry, Fiona Gannon, y cyfeilydd, a brwdfrydedd yr holl gôr. Ac, i gloi roedd pawb yn sefyll i ganu'r anthem gorau yn y byd, Hen Wlad fy Nhadau, ac yn canu o'r galon gyda theimlad a balchder! Arbennig, a diolch yn fawr iawn i bob aelod o'r côr am roi noson hollol fythgofiadwy i ni!

# NEWYDDION CYMDEITHAS GYMRAEG TREFORYS -GARETH RICHARDS

Angharad Jenkins, Abertawe oedd yn cyflwyno ei doniau cerddorol i'r Gymdeithas ganol Mehefin gyda sgwrs am ei bywyd ynghyd â phytiau cerddorol ar y ffidl a'r crwth.
Mae'n adnabyddus i ni oll erbyn hyn, magwyd yn Abertawe yn ferch i Delyth a'r diweddar Nigel Jenkins y ddau yn frwd dros gerddoriaeth a chenedligrwydd Cymru.
Cerddor, cyfansoddwr ac ymarferydd creadigol o Abertawe yw Angharad. Mae'n drysor o dalent a ddisgrifiwyd yn ddiweddar fel 'un o ddynamos y sîn werin yng Nghymru,' mae hi'n rhan o don newydd o gerddorion ifanc sy'n gwthio'r traddodiad i'r dyfodol. Mae hi'n aelod o'r grŵp gwerin Calan, sydd wedi teithio ledled y DU, Ewrop a Gogledd America. Mae hi hefyd yn perfformio gyda'i mam, y delynores Delyth Jenkins, a'r supergroup Cymraeg Pendevig.
Addysgwyd Angharad ym Mryn-y-môr a Gŵyr ond roedd ei chartref llawn cerddoriaeth a barddoniaeth. Mae'n cydnabod bod y dylanwadau cyfoethog hyn wedi ei llywio, yn ogystal â dylanwad ei hathro gwych, Andrew Griffiths. Mae'n cyffesu nad oedd yn hoff o Eisteddfodau ac nad yw cystadlu yn y celfyddydau o les o gwbl. Roedd taith i Sweden yn ei harddegau yn drobwynt yn ei gyrfa a chyfle i ddysgu cerddoriaeth trwy'r glust, hynny yw gwrando a chofio'r dôn yn hytrach na darllen sgôr. Daeth oddi yno llawn angerdd dros gerddoriaeth yn enwedig y traddodiad Cymreig.
Chwaraeodd Angharad donau i'n hatgoffa o'n cyfoeth :
Tom Jones a Gwyngalch Morgannwg, sef jigs sionc; Diddanwch Gruffydd ap Cynan (y bu ei mam yn chwarae iddi tra yn feichiog), Mae'n nghariad i'n Fenws, Ton y Botel a drodd yn dôn emyn adnabyddus yn ddiweddarach, sef Ebeneser a gysylltir gyda'r capel o'r un enw yn Rhos, Pontardawe.
Y gred gan y mwyafrif mai'r delyn yw ein hofferyn cenedlaethol ond bu'r ffidl yr un mor berthnasol a'r 19eg ganrif yn oes aur iddi. Bu dylanwad y Sipswn ar gerddoriaeth y ffidl yn fawr a diolch i Nansi Richards am eu cadw'n fyw. Bocsys siocled amrwd oedd ffidlau'r sipswn ac mae'n siŵr bod y sŵn ohonynt yn wahanol!
Dangosodd Angharad ei chrwth (math cynnar o offeryn sy'n debyg i ffidl o gyfnod y Canol Oesoedd).



Yn sicr dyma ein hofferyn cenedlaethol. Richard Stephenson, saer o Aberystwyth a'i creodd. Ychydig enghreifftiau sydd wedi goroesi ac mae'r crwth sydd gan Angharad wedi ei lunio ar yr un sydd yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth. Defnyddiwyd masarn (sycamorwydden) ar gyfer y corff a laburnum i'r gwddwg ac mae iddo chwe thant. Cyfaddefodd Angharad nad oedd y sŵn at ddant pawb ac ychydig yn aflafar. Serch hynny cyflawnodd wyrthiau wrth chwarae tonau digon swynol.
Mae Angharad yn angerddol dros effeithiau cerddoriaeth ar iechyd a lles bobl, a bu'n gweithio'n rheolaidd gyda Live Music Now a Music in Hospitals. Newidiodd ei byd yn ddiweddar yn dilyn genedigaeth ddau blentyn Idris a Tanwen, ond mae'n benderfynol o ddilyn gyrfa mewn cerddoriaeth. Sefydlodd ei blog 'Mumsician' i dynnu sylw at fywydau a gyrfaoedd cerddor-famau eraill yn y diwydiant.
Roedd y noson yn wir ddiddorol a braf oedd cael clywed am ein traddodiadau cerddorol cynhenid yn Nhreforys. Efallai bod crefydd ac Anghydffurfiaeth wedi lladd ar y traddodiad gwerin yn y gorffennol a bod emynau wedi llanw'r bwlch yna ond diolch i Angharad a'i thebyg am eu hail gyflwyno i ni'r Cymry yn ystod y cyfnod diweddar.
Diolchwyd i Angharad am noson i'w chofio gan David Gwyn John a Terry Williams a gyfaddefodd ei "fod yn hoffi cerddoriaeth, er nad oedd yn gerddor" ac mae hynny'n wir am y rhan fwyaf ohonom!

## CYFARFOD CYFEILLION GŴYR -DAFYDD WILLIAMS

Bu Canolfan Plwyf Sgeti dan ei sang am cyfarfod blynyddol cyffredinol Cyfeillion Gŵyr. Clywodd y cyfarfod am y gweithgareddau a fu yn ystod y ddeuddeng mis diwethaf.

Bu trafodaeth frwd am y nifer o danau a ddigwyddodd ar hyd Penrhyn Gŵyr yn ystod y tywydd sych diweddar.

Yn dilyn y cyfarfod, cafwyd cyflwyniad gan Gordon Howe ar warchodfa natur newydd Bro Gŵyr, sef Cartersford, ble oedd perchennog newydd wedi difetha coed hanesyddol.

Prynodd Cyfeillion Gŵyr y safle yn ystod 2025, y tro cyntaf i'r gymdeithas weithredu fel hynny mewn 75 mlynedd o fodolaeth.



Llun: Llywydd Cyfeillion Gŵyr Guto ap Gwent yn croesawu'r aelodau.

Erbyn hyn ar ôl ffensio'r tir gyda chydweithrediad Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru, mae coed amrywiol wedi'u plannu a gwelwyd dyfrgwn ar yr afon Ilston yn ogystal â nifer o adar gwyllt.

## BRENIN LLOEGR YN ANRHYDEDDU ARBENIGWR MEDDYGOL O ABERTAWE

Er ei fod yn gweithio miloedd o filltiroedd i ffwrdd, daeth y llongyfarchiadau'n drwchus ac yn gyflym pan ddaeth y newyddion bod y siaradwr Cymraeg, Dr Martin Rolles o Fae Abertawe, wedi derbyn yr MBE. Mae ei wraig, Betsan, yn aelod ym Methel Sgeti.

Derbyniodd Dr Rolles, ymgynghorydd oncoleg glinigol yng Nghanolfan Canser De-orllewin Cymru yn Ysbyty Singleton, y wobr yn Rhestr Anrhydeddau Pen-blwydd y Brenin am ei wasanaethau i wyddoniaeth gofal iechyd a gofal canser.

“Mae hyn wir yn perthyn i bawb rydw i wedi gweithio gyda nhw dros yr 20 mlynedd diwethaf yn Ne Cymru, ac i'r holl wahanol bwyllgorau rydw i wedi bod yn aelod ohonynt,” meddai.

“Rydw i wedi bod yn ffodus iawn i weithio gyda chriw gwych o bobl a'r hyn rydyn ni wedi'i gyflawni, rydyn ni wedi'i gyflawni fel tîm.

“Rydym wedi dod â gwasanaethau canser yn Ne-orllewin Cymru i fyny i safonau cenedlaethol a safonau Ewropeaidd. Mae yna ffordd bell i fynd o hyd ond mae'n lle hyfryd i weithio.”

Mae Dr Rolles yn arbenigo mewn canser y pen a'r gwddf a chanser y croen nad yw'n melanoma. Ar ôl astudio sŵoleg ym Mhrifysgol Bryste, astudiodd feddygaeth ym Mhrifysgol Cymru.

Yn dilyn hyfforddiant arbenigol yn Wessex a chymrodoriaeth radiotherapi yng Nghanolfan Canser Vancouver, dychwelodd i Gymru yn 2006 i ymgymryd â swydd ymgynghorydd yn Abertawe.

Mae Dr Rolles yn cadeirio Pwyllgor Gwyddorau Iechyd Cymru, sy'n darparu cyngor meddygol gwyddonol annibynnol i Lywodraeth Cymru.

Mae hefyd yn cadeirio Grŵp Cyfeirio Clinigol Rhwydwaith Canser Cymru, a Grwpiau Cynghori Radiotherapi Proton a Moleciwlaidd Cymru Gyfan. Mae'n is-gadeirydd Cyngor Coleg Brenhinol y Radiolegwyr.

Mae'n credu'n gryf ym manteision ymchwil glinigol ac ar hyn o bryd mae'n brif ymchwilydd mewn treialon cenedlaethol ar gyfer canser y pen a'r gwddf a chanser y croen.

Does ganddo ddim syniad pwy a'i henwebodd a'r cyntaf iddo wybod am ei MBE oedd pan dderbyniodd lythyr cyfrinachol gan Swyddfa'r Cabinet ddau fis yn ôl.

Pan gyhoeddwyd y rhestr lawn o dderbynwyr, roedd Dr Rolles fwy na 5,000 milltir i ffwrdd, yn addysgu ar gwrs yn Kolkata yn India.

## CWIS LYFRAU - MEINIR JONES, PENNAETH YR ADRAN GYMRAEG

Cynhaliwyd Cwis Llyfrau i rai o ddisgyblion blynyddoedd 7, 8 a 9 ysgolion uwchradd yr ardal, sef Ysgolion Ystalyfera, Gŵyr, Bryn Tawe a Bro Dur. Cartref y cwis eleni oedd Ysgol Bryn Tawe a diolch yn fawr iawn i Sarah Bowkett sy'n gweithio i Sir Abertawe, Emily Evans ac Indeg Llewelyn Owen o Brifysgol Abertawe am feirniadu'r trafodaethau. Cymysgwyd y disgyblion o bob ysgol ar gyfer trafodaethau a thasgau'r diwrnod gan roi cyfle felly i ddisgyblion wneud ffrindiau newydd. Gwobrwywyd y timau buddugol a chafodd siaradwyr gorau'r diwrnod docyn llyfr yn wobr! Cafwyd diwrnod hwylus o drafodaethau, cwisiau a gweithgareddau amrywiol i ddathlu darllen a llyfrau!





## DARLLEN GYDA'R YSGOLION CYNRADD - MEINIR JONES, PENNAETH YR ADRAN GYMRAEG

Cafodd disgyblion blwyddyn 7 Bryn Tawe gyfle i fynd i'n hysgolion cynradd i ddarllen llyfrau am chwedlau a grëwyd ganddyn nhw mewn gwersi Cymraeg yn ddiweddar. Diolch yn fawr i'r ysgolion cynradd am eu croeso cynnes!





## TAITH I OGLEDD CYMRU - MEINIR JONES, PENNAETH YR ADRAN GYMRAEG

Aeth criw o ddisgyblion Ysgol Bryn Tawe ar daith i Ogledd Cymru. Ymysg y criw oedd disgyblion o flwyddyn saith i'r 6ed. Hyfryd oedd cwrdd â phobl o wledydd ar draws y byd ar faes Eisteddfod Rhyngwladol Llangollen. Diolch yn fawr i Goleg y Bala am y croeso a gawsom yno dros nos. Yna, fore Gwener, cawsom y cyfle i weld Llyn Tryweryn ac ymweld â'r Ysgwrn. Deuddydd i'w cofio!





## YMWELIAD Â'R SENEDD - MEINIR JONES, PENNAETH YR ADRAN GYMRAEG

Aeth criw o ddisgyblion blwyddyn 8 Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe i ymweld â'r Senedd ym Mae Caerdydd. Cawsom daith o gwmpas yr adeilad a chyfle i gynnal trafodaeth, heb anghofio hufen iâ blasus cyn gadael y Bae.




Diolch yn fawr i'n cyfranwyr ar gyfer rhifyn Gorffennaf. Menter Iaith Abertawe sydd yn coladu straeon Wilia. Plîs danfonwch unrhyw beth a allai fod o ddiddordeb i'n darllenwyr ar gyfer rhifyn Awst erbyn Gorffennaf 31ain trwy ebostio Anys at:
**datblygu@menterabertawe.org**
Neu anfonwch eich lluniau/straeon at dudalen Facebook Wilia.

CYMRAEG Dysgu Learn

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government

# CYNLLUN CHWARAE YR HAF

menter iaith abertawe

GEMAU CREFFT CHWARAEON

10:00-12:00

£1 YN UNIG!
ONLY £1!

**20-21 Gorffennaf July**

YSGOL GYFUN GŴYR
HEOL TALBOT
SA4 4DB



**22-23 Gorffennaf July**

YGG BRYN TAWE
HEOL GWYROSYDD
SA5 7BU



MENTERABERTAWE.ORG/ARCHEBU

Cyngor Abertawe Swansea Council

MENTRAU IAITH

# HAF O HWYL ABERTAWE 2026

FLOSSY & BOO: PÂL
11:30

18/7

20-23/7

CYNLLLUNIAU CHWARAE
10:00-12:00

PLANTAWE
13:00-16:00

24/7

29/7

GWEITHDAI SIÔN TOMOS OWEN
10:30 / 13:30

DIWRNOD CHWARAE CENEDLAETHOL
10:00-14:00

5/8

MENTERABERTAWE.ORG

menter iaith abertawe